

Vita! Vita! Vita!

“A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a’r hwn a anafonaist ti, Iesu Grist.” (adn. 3)

Beth am ddarllen Ioan 17:1–19 ac yna myfyrio

Yn ôl yr hanes, roedd y Cristnogion cynnar yn cerfio ar furiau eu carcharau y geiriau, ‘Vita! Vita! Vita!’, sef ‘Bywyd! Bywyd! Bywyd!’ Ni allai muriau’r carchar gyfyngu dim ar y bywyd yr oeddent wedi ei brofi, oherwydd bywyd tragwyddol oedd hwn. Ni all angau ddifa’r bywyd yma. O ran ei natur, mae’n sicr o barhau y tu hwnt i angau. A all y plisgyn gyfyngu ar fywyd yr hedyn? Na all, ac ni all amgylchiadau’r byd gyfyngu ar fywyd Duw yn enaid y dyn neu’r ddynes sydd wedi adnabod perthynas bersonol hefo Iesu Grist.

Sylwch nad yw Iesu byth yn defnyddio’r gair ‘anfeidrol’ wrth siarad am ein bywyd i ddod. Gwell ganddo yr ymadrodd, ‘bywyd tragwyddol’, oherwydd mae hyn yn cyfleu, nid yn unig, hyd, ond hefyd ansawdd y bywyd sydd mor gyfoethog, mor helaeth ac mor dragwyddol. Ni all gael ei gyfyngu i’n bodolaeth bresennol. Yn ôl un pregethwr, mae bywyd tragwyddol o ran ansawdd yn hollol wahanol i fywyd cyffredin. Yr un modd ag y mae bywyd cyffredin mor hollol wahanol i fywyd anifail.

Wrth i Charles Kingsley, y nofelydd, agosáu at ei farwolaeth, dywedodd, “Maddau i mi os wyf yn anghywir, ond rwyf yn edrych ymlaen gyda chwilfrydedd parchus.” Dywedodd Thomas Carlyle, “Mae tragwyddoldeb sydd bellach heb fod ymhell i ffwrdd yn ddinas gadarn i mi. Rwyf yn edrych yn eiddgar arni o bryd i’w gilydd. Mae pob ofn yn diflannu.” Mor wahanol yw’r geiriau yma i eiriau’r agnostic hwnnw a glywais unwaith yn dweud wrth ymyl bedd ei frawd, “Ffarwél, frawd, dyma ddiwedd popeth.” Dywed y Cristion yn wyneb marwolaeth, “Nid y diwedd yw hwn, ond dyma’r dechrau.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 3:12–21; 5:24; 12:25; Gal. 6:8

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i Iesu ddiffinio bywyd tragwyddol?
2. Beth yw’r gwahaniaeth rhwng ‘tragwyddol’ ac ‘am byth’?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, rwy’n ddiolchgar dy fod ti wedi dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni. Ynot ti, mae marwolaeth yn gwbl amhosibl ac mae bywyd tragwyddol mor bosibl. Boed pob gogoniant ac anrhydedd i dy enw bendigedig. Amen.